

Syncretiaeth

**Cyfuniad o gysyniadau gwahanol mewn un
syniad newydd unigryw**



GWLEIDYDDIAETH SYNCRETAIDD

Mae gwleidyddiaeth Syncretaidd (neu wleidyddiaeth hybrid) yn awgrymu'r un syniad creiddiol a welir gyda Syncretiaeth grefyddol, ond yn ymwneud gyda gwleidyddiaeth nid addoliad wrth reswm.

Yn hytrach na dilyn un ideoleg neu ddogma bleidiol yn gaeth, gall rhywun ddynodi cryfderau a gwendidau o fewn llawer o'r rhain, gan geisio tynnu ar yr elfennau sy'n ymddangos yn gadarnhaol gan ddiosg y rheiny sy'n ymddangos yn negyddol (megis sosialaeth bur neu 'statism' neu cenedlaetholdeb eithafol).

Yn syml nid bod 'ar y chwith', neu 'ar y dde' ydi gwleidyddiaeth Syncretaidd ond yn hytrach cwestiwn ynghylch be sy'n iawn neu be sy'n anghywir ar gyfer fy ngwlad.

Fel ateb i'r cwestiwn a ydi Ein Gwlad ar y 'chwith' neu'r dde', byddwn yn ateb yn syml "Plaid Gymreig ydym ni".

Byddwn yn canolbwyntio'n unig ar beth sydd orau I Gymru a'i phobol. Nid ydym am dalu gwrogaeth i'r cysyniad o asgell chwith', 'canol' neu 'dde' gan mai cysyniadau haniaethol, hen ffasiwn ac amherthnasol gwleidyddiaeth gonfensiynol yw'r rhain sydd wedi chwythu'u plwc erbyn hyn.

Mae'r paradeim un echel yn perthyn i'r gorffennol. Yr ydym yn benderfynol na chawn ni ein cysylltu gyda labeli fel hyn.

Mae pleidiau Syncretaidd yn ymddangos ar hyd a lled Ewrop. Cant eu disgrifio'n ddirmygus yn 'bopiwlstaidd', ond dyma'n union ydi'r wleidyddiaeth sydd wedi dod i'r fei oherwydd y dirmyg a'r diffyg ymddiriedaeth sydd gan bobl tuag at bleidiau traddodiadol sy'n cael eu gyrru gan eu hunan-les eu hunain.

Diffinnir 'populist' (yn Saesneg) yng ngeiriadur Rhydychen fel a ganlyn:

" ymdrech sy'n ceisio apelio at bobol cyffredin sy'n teimlo nad ydi'r grŵpiau elite sefydliadol yn cymryd sylw o'u pryderon".

Disgrifiadau swyddogol eraill:

"Cefnogaeth ar gyfer pryderon pobol gyffredin h.y. mae'n glir bod popiwlistiaeth yn uniaethu gyda phobl ar waelod yr ysgol gymdeithasol."

"Gallu apelio, neu wedi'i apelio at bobol gyffredin."

Oni ddylai pob plaid geisio gwneud hynny? Ond ydynt wedi gwneud hynny er eu holl addewidion, ac nid ydynt wedi gwneud hynny ers blynyddoedd maith. Yr ydym ni yn falch iawn o gael ein galw yn blaid 'popiwlistiaidd'.

Mae'n bosib gweld mewnwelediad gwerthfawr ac elfennau economaidd-gwleidyddol synhwyrol o fewn rhyddfrydiaeth glasurol (Friedrick Hayek) a Cheidwadaeth (Edmund Burke), ond mae'n debyg nad ydi'r rhain yn ddigon. Felly, mae angen cydweddu'r rhain gydag elfennau eraill megis Cenedlaetholdeb – ond - nid y math o genedlaetholdeb imperialistaidd dinistriol ac ymosodol a welwyd mewn sawl gwlad Ewropeaidd yn ystod y 19eg ganrif a'r 20ed ganrif, megis Lloegr, Ffrainc a'r Almaen.

Ein nod ydi rhyddhau ein gwlad a'n pobol rhag rheolaeth Brydeinig a sefydlu ein hunain fel gwlad rydd, sofran ac heddychlun yn ei hawl ei hun.